menteriaith
SIR Y FFLINT

www.menteriaithsirytfflint.co.uk

Adroddiad Blynyddol

2009-2010

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cynnwys **Tudalen**

Rhagair y Cadeirydd	3
Crynodeb Gweithredol	4
Cenhadaeth Menter Iaith Sir y Fflint	4
Pennod 1 – Mudiadau a Phartneriaethau	5
Pennod 2 – Rhieni Ifanc	6
Pennod 3 – Plant	7
Pennod 4 – Hyder Ieithyddol	8
Pennod 5 – Pobl Ifanc	8
Pennod 6 – Sector Breifat	9
Pennod 7 – Marchnata a Chyhoeddusrwydd	9
Pennod 8 – Staffio, Y Strwythur Rheoli ac Aelodaeth	10
Pennod 9 – Gweithredu, Monitro ac Adolygu	13
Pennod 10 – Crynodeb o'r Datganiad Ariannol	15

Rhagair y Cadeirydd

Braf yw eich croesawu i Adroddiad Blynyddol y Fenter gan ddiolch i chi am roi o'ch amser ac i ddangos diddordeb yng ngweithgareddau'r Fenter Iaith. Bu eleni, fel pob blwyddyn arall yn un brysur a chynhyrfus ar adegau, gydag ambell dro yn y gynffon. Ar ddechrau'r flwyddyn bu sôn am gydweithredu agosach rhwng Mentrau Iaith y Gogledd Ddwyrain, yn anffodus bu i Sir Ddinbych dynnu allan o'r trafodaethau ond mae'r berthynas waith gyda Menter Maelor yn parhau ac edrychwn ymlaen at gydweithio ymhellach er mwyn sicrhau arbedion effeithiolrwydd mewn perthynas ag adnoddau ac arbenigedd staff. Rhoddwyd llawer o amser i baratoi cynllun delfrydol ar gyfer Canolfan Iaith ar safle Tŷ Catrina yn yr Wyddgrug, ac mi fydd y sefyllfa economaidd yn un her arall inni ei wynebu er mwyn gwireddu'r freuddwyd o gael canolfan penodol ar gyfer datblygu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn Sir y Fflint.

Cynhaliwyd digwyddiadau lu a braf yw gweld y cydweithio hapus sydd rhwng gwahanol fudiadau sydd yn gweithio dros y Gymraeg yn Sir y Fflint. Un arwydd o'r cydweithio hwn fu apwyntio swyddog ieuenctid ar y cyd gyda'r Urdd ac eisoes gwelwyd ail ffurfio Aelwyd gref o ieuenctid tros 16 oed brwdfrydig.

Mae pwyslais y Bwrdd yr Iaith erbyn hyn ar gymell ieuenctid ac eraill i ddefnyddio'r Gymraeg, a'n cyfrifoldeb ni , nid yn unig fel Menter Iaith ond fel cymdeithas ehangach yw rhoi'r cyfleoedd i'r Gymraeg gael ei lle o fewn y Sir. Tasg go anodd wrth wynebu'r gwasgu sydd ar ein gwarthaf. Diddorol yn hyn o beth fydd effaith y Mesur Iaith a dyfodiad Comisiynydd Iaith.

Wedi rhai blynyddoedd o fod yn Gadeirydd y Fenter purion o beth fydd rhoi cyfle i arall gymryd fy lle. Carwn ddiolch i bob un o aelodau'r Staff am eu hymroddiad ac i weddill y bwrdd am eu hamynedd a'u cefnogaeth.

Crynodeb Gweithredol

Mae **Menter Iaith Sir y Fflint** yn gwmni cyfyngedig dan warant a sefydlwyd yn 1998. Mae'r Fenter yn gweithredu ar lefel lleol i Sir y Fflint gyda chynrychiolwyr o'r Bwrdd Cyfarwyddwyr wedi eu penodi ar sail maes diddordeb neu ardaloedd daearyddol. Hyn oll er mwyn sicrhau bod y Fenter yn gynrychioladol o gymunedau'r sir. Ei phrif swyddogaeth yw datblygu ac ehangu'r defnydd o'r Gymraeg yng nghymunedau Sir y Fflint. Bwrdd yr Iaith Gymraeg yw prif gyllidwyr y Fenter ac mae hi hefyd yn ogystal wedi llwyddo i ddenu nawdd yn flynyddol gan Gyngor Sir y Fflint at gostau staffio. Sicrhawyd nawdd ychwanegol o'r Rhaglen Datblygu Wledig a ariannir yn rhannol gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gweithredu Prosiect Iaith a Threftadaeth ar gyfer y cyfnod 2008-11. Lleolir swyddfa'r Fenter yn "Corlan" - adeilad Cyngor Gwirfoddol Sir y Fflint ar y Parc Busnes yn Yr Wyddgrug. Asesir gwaith y Fenter yn flynyddol gan Fwrdd yr Iaith yn unol â thargedau penodol a gytunwyd rhwng Bwrdd Cyfarwyddwyr Menter Iaith Sir y Fflint a Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r targedau yn cyd-fynd a'r blaenoriaethau a amlinellwyd yng Nghynllun Corfforaethol y Fenter am y cyfnod 2008 -11 yn dilyn ymgynghoriad gyda'r aelodau, budd-ddeiliaid a phartneriaid.

Cenhadaeth Menter Iaith Sir y Fflint

Gwaith y Fenter yw ehangu, hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn Sir y Fflint. Bydd y Fenter yn cyflawni hyn drwy:

- Normaleiddio'r defnydd o'r iaith Gymraeg drwy ehangu'r meysydd a chyfleoedd i'w defnyddio o fewn Sir y Fflint a'r ardaloedd cyfagos.

- Codi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a sicrhau proffil gweledol a chlywedol iddi.

- Codi hyder siaradwyr Cymraeg a chenhadu ymysg y di-gymraeg i'w hannog i ddysgu'r iaith Gymraeg drwy drefnu a datblygu gweithgareddau a digwyddiadau diwylliannol, addysgol ac amser hamdden arall.

- Amlygu cyflwr yr iaith Gymraeg yn y gymuned drwy ddatblygu prosiectau a fydd yn sicrhau ei ffyniant a dylanwadu ar y ffactorau cymdeithasol ac economaidd er mwyn sicrhau statws a gwerth economaidd i'r Gymraeg.

Mae'r ddogfen yma yn adroddiad ar waith y Fenter ac yn cwmpasu'r cyfnod rhwng misoedd Medi 2009 a Hydref 2010

Pennod 1: Mudiadau a Phartneriaethau

Mae'r Fenter yn parhau i feithrin perthynas a datblygu cysylltiadau gyda nifer o bartneriaid yn y sector gyhoeddus a'r sector wirfoddol er mwyn sicrhau mwy o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r **Fforwm Sirol** o bartneriaid iaith y Sir yn cyfarfod yn chwarterol, gyda'r Fenter yn parhau i gydlynu a chadeirio'r cyfarfodydd. Mae'r **partneriaid** wedi llwyddo i gydweithio yn effeithiol i drefnu ymgyrchoedd, megis **Wythnos Iaith ar Daith** Sir y Fflint ac i gydweithio i hyrwyddo **Wythnos Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam a'r Cyffiniau**. Mae'r aelodau yn cael cyfle i rannu ymarfer da ac yn ceisio **dylanwadu** ar **lefel strategol** er mwyn **newid arferion** a **chynyddu defnydd** o'r Gymraeg gan y **sector wirfoddol** a'r **sector gyhoeddus yn y gogledd ddwyrain**. Mae aelodaeth y Fforwm wedi cynyddu mewn nifer yn ystod y cyfnod, ac rydym wedi cyfuno a mudiadau a sefydliadau sy'n gweithredu yn Sir Wrecsam er mwyn arbed adnoddau ac amser staff. Mae'r mudiadau canlynol yn aelodau o Fforwm Iaith Sirol : - **Menter Iaith Sir y Fflint**, **Menter Iaith Maelor**, **Urdd Gobaith Cymru**, **Mudiad Ysgolion Meithrin, TWF, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Menter a Busnes, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Clybiau Ffermwyr Ifanc Clwyd , Merched y Wawr, Clybiau Gwawr, Popeth Cymraeg, Prifysgol Cymru Bangor, Coleg Glannau Dyfrdwy, Coleg Iâl, Coleg Llysfasi, Canolfan Cymraeg i Oedolion, Cadwyn Clwyd, Estyn Llaw, Rhieni Dros Addysg Gymraeg a Choleg Garddwriaeth Cymru**, **Coleg Harlech a Chyngor Gwirfoddol Sir Fflint**

Mae aelodau'r Fforwm yn parhau i gefnogi'r **Prosiect Iaith a Threftadaeth** yn ardaloedd gwledig Sir y Fflint a ariannir yn rhannol gan rhai o aelodau'r **Fforwm Iaith**, yr **Undeb Ewropeaidd** a **Llywodraeth Cynulliad Cymru**. Sicrhaodd y nawdd yma gyfleodd i gynnal nifer o weithgareddau a phrosiectau yng nghymunedau Sir y Fflint er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a diwylliant cyfoethog y sir. Yn ogystal mae'r nawdd

wedi galluogi'r Fforwm Sirol i gydweithio gyda'r gymuned ehangach er mwyn edrych i ddatblygu Canolfan Iaith Gymraeg a Threftadaeth bwrpasol ar gyfer mudiadau cymunedol yn Yr Wyddgrug. Mae gwaith cynllunio ar waith, a thrafodaethau yn parhau gyda pherchnogion safle arfaethedig a ffynonellau cyllido posibl ar gyfer datblygu'r Ganolfan wedi eu hadnabod.

Ym Mis Mai 2010 cydweithiodd y Fenter gyda phartneriaid y Fforwm Sirol yn Sir y Fflint rhaglen o weithgareddau ar gyfer **Wythnos Iaith ar Daith** am y bedwaredd flwyddyn yn olynol. Cafwyd rhaglen gyflawn o ddigwyddiadau ar draws y sir er mwyn **hyrwyddo'r** defnydd o'r **Gymraeg** ym mhob sector. Trefnwyd y gweithgareddau canlynol yn ystod yr ymgyrch:- **Eisteddfod Dysgwyr y Gogledd Ddwyrain**, **noson gyda Dewi Pws, Ryland Teifi a Radwm yn Yr Wyddgrug, Sesiwn Sblash a Chan yn Nhreffynnon, Taith Rimbojam gyda meithrinfeydd a chylchoedd Ti a Fi yn Picton, Helygain, Aston, Y Fflint, Yr Wyddgrug a Choed Llai, Noson Gwis yn Nhafarn yr Hendre, Noson Cawl a Chlocsiau, Twmpath Calan Mai a'r Ŵyl Cadi Ha yn Nhreffynnon.**

Mae'r Fenter yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi **grwpiau cymunedol** sydd yn gweithredu yn wirfoddol er mwyn **hyrwyddo iaith a diwylliant** Sir y Fflint. Rydym wedi rhoi cefnogaeth i'r grwpiau canlynol yn ystod y cyfnod: **Pwyllgor Gŵyl Tegeingl, Pwyllgor Gŵyl y Cadi Ha, Pwyllgor Dafydd ap Llywelyn, Partneriaeth Wledig Sir y Fflint, Pwyllgor Trawsnewid Treffynnon, Pwyllgor Sioe Treuddyn, Grŵp Treftadaeth Llaneurgain, C3, CD, Merched y Wawr Treffynnon a Chlwb Gwawr Famau.**

Rydym wedi llwyddo i ddatblygu **perthynas** newydd gyda chyrff a mudiadau amrywiol, megis **Adran Hyfforddiant Cyngor Sir y Fflint** er mwyn darparu sesiynau **Ymwybyddiaeth Iaith** ar gyfer staff y Cyngor Sir, hyn er mwyn eu cynorthwyo i gynyddu ymwybyddiaeth y staff o bwysigrwydd gweithredu **Cynllun Iaith** y Cyngor. Byddwn yn parhau i adeiladu ar y gwaith yma yn y dyfodol. Cynhaliodd staff weithdai ymwybyddiaeth iaith i ddisgyblion a staff ysgolion y sir yn ystod **Diwrnod Ieithoedd Ewropeaidd** yng Nghlwyd Theatr Cymru ym mis Medi 2009.

Rydym yn parhau i gefnogi mudiadau a sefydliadau lleol drwy gynnig gwasanaeth cyfeirio at **Linell Gyswllt** Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'u gwasanaethau **Cyfieithu.**

Pennod 2: Rhieni Ifanc

Mae'r Fenter am gynorthwyo i ddwyn perswâd ar rieni ifanc i drosglwyddo'r iaith i'r genhedlaeth nesaf er mwyn cynyddu'r canran o deuluoedd lle mae'r Gymraeg yn brif iaith y cartref. Mi fyddwn yn sicrhau cyfleoedd i deuluoedd ifanc i ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd cymdeithasol drwy gynnal gweithgareddau cyffroes a chyfoes er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y sir.

Trefnodd y Fenter weithgaredd **"Picnic Cae'r Berllan",** sesiwn stori a chan ym **Mharc Gwledig Loggerheads** ym mis Medi 2009 mewn cydweithrediad a **Mudiad Ysgolion Meithrin**. Diben y gweithgaredd oedd rhoi cyfle i'r rhieni gael cymdeithasu yn y Gymraeg a rhoi cyfle i'r plant gael arddangos eu gwisgoedd carnifal yn dilyn gohirio'r digwyddiad ym Mis Gorffennaf 2009. Trefnodd y Fenter **Ddiwrnod Sbri-di-ri** i deuluoedd ardal **Ffynnongroyw, Thalacre, Gronant, Picton a Mostyn** hefyd ym mis Medi 2009. Cydweithiodd y Fenter gyda staff **Canolfan i Deuluoedd Thalacre,** Cyngor Sir y Fflint a Choleg Glannau Dyfrdwy er mwyn creu cyfleodd i'r rheini gymdeithasu yn y Gymraeg a galluogi'r rhieni di-gymraeg i gael mynediad i wybodaeth am addysg Gymraeg i oedolion. Trefnodd y Fenter tri gweithgaredd ar gyfer **teuluoedd** yn ystod hanner tymor yr Hydref 2009 , gan gynnwys gweithdy **Celf Wyllt** gyda'r arlunydd amgylcheddol Tim Pugh yng **Ngholeg Llaneurgain, sesiwn Goroesi yn y Gwyllt gyda'r Ysgol Goedwig Ymddiriedolaeth Plas Derw** a **thaith gerdded i deuluoedd** ym mis Hydref 2009 yng **Nghoedwig Chwitffordd** gydag Iwan Roberts o **Gymdeithas Edward Llwyd**.

Yn ogystal daeth y **stori wraig broffesiynol**- Cath Aran i ymweld â phlant a rheini **Ysgol Glanrafon**, yn Yr Wyddgrug er mwyn codi ymwybyddiaeth rhieni o bwysigrwydd darllen storiâu i'w plant er mwyn datblygu eu sgiliau llafar a darllen yn y Gymraeg.

Trefnodd y Fenter sesiynau **Celf a Chan** ar gyfer rhieni a phlant ifanc yng **Ngronant** ym Mis Chwefror 2010 .Bu staff y Fenter yn cydweithio gyda'r Ganolfan i hyrwyddo a chynnal y gweithgaredd, megis darparu sesiwn **ymwybyddiaeth iaith**, **sesiynau sgwrsio** a lledaenu **gwybodaeth** am **fanteision magu plant yn ddwyieithog**. Cynhaliodd y Fenter sesiwn hwyliog i deuluoedd ar y cyd gyda'r Cylch Meithrin ar ôl ysgol yn **Ysgol Glanrafon** Yr Wyddgrug ym Mis Rhagfyr. Cafwyd cyfle i ddangos DVD Cymraeg **Holi Hana** i'r teuluoedd chyfle i'r plant gael gyfarfod cymeriadau poblogaidd **Hana a Bert**. Cynhaliwyd **twmpath dawns** fechan a chyflwyniad i alawon Cymreig ar ddiwedd y sesiwn, gan gynnwyd cynnal sesiwn **lliwio, lluniaeth ysgafn a stondinau gwybodaeth** am wasanaethau Cymraeg a gwersi Cymraeg i rieni. Mynychodd yn agos i **100** o **blant a rhieni'r** digwyddiad.

Trefnodd y Fenter **Gig** gyda bandiau ifanc lleol ac Elin Fflur a'r Band yn ystod **Gŵyl Bwyd a Diod** Yr Wyddgrug ym Mis Medi 2010, a daeth dros 100 o bobl ifanc a'u teuluoedd yno ar y noson. Cynhaliwyd **Noson Merched Gwyllt Cymru** gyda'r awdures **Beryl Griffiths** ar gyfer 15 o **famau ifanc** lleol yn y Farmers Arms yn Nhreuddyn mewn cydweithrediad ar Cylch Meithrin ym Mis Mai 2010.

Pennod 3: Plant

Mae'r Fenter am gydweithio gyda sefydliadau addysg a gofal plant i sicrhau fod darpariaeth Gymraeg ar gael i holl blant y sir o fewn eu cymunedau lleol. Mi fydd y Fenter yn sicrhau cyfleodd iddynt gael defnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd anffurfiol er mwyn normaleiddio defnydd o'r iaith yn gymdeithasol.

Darparodd y Fenter dri diwrnod o **weithdai celf, drama a dawns** yn ystod hanner tymor y Gwanwyn rhwng 9.30am - 4.00 pm. Cynhaliwyd y gweithgareddau yn **Ysgol Glanrafon** Yr Wyddgrug ar thema '**Achub y Byd'**, a'r bwriad oedd codi ymwybyddiaeth o newid hinsawdd, y pwysigrwydd o ailgylchu a byw mewn modd cynaliadwy. Yn ogystal â hyn, roedd y gweithdai yn creu cyfle i blant gymdeithasu yn y Gymraeg.

Daeth y **storiwraig broffesiynol**- Cath Aran i ymweld â phlant **Ysgol Glanrafon**, **Ysgol Bryn Coch, Ysgol Alun ac Ysgol Maes Garmon** yn Yr Wyddgrug er mwyn codi ymwybyddiaeth o chwedlau a hanesion traddodiadol o Gymru.
Trefnwyd **gweithdai cyfansoddi lyrics hefo Gwibdaith Hen Fran** i dros 100 o ddisgyblion Ysgol Maes Garmon ac Ysgol Alun. Aeth rhai o fynychwyr y gweithdai i berfformio eu caneuon ar lwyfan gyda Gwibdaith fel rhan o **Wŷl Fwyd yr Wyddgrug 2009.**
Daeth **Twm Morys** i **Ysgol Glanrafon** i gynnal gweithdai barddoni gyda dau ddosbarth.
Cynorthwyodd y Swyddog Ieuenctid cwmni **Actif 24/7** wrth iddynt gynnal sesiynau **chwaraeon a gemau trwy'r Gymraeg.** Roedd y gweithgareddau, a chynhaliwyd yn ystod hanner tymor Hydref, yn llwyddiant gyda dros 20 o blant o Ysgol Glanrafon yn mynychu'r gweithgaredd.
Gweithiodd y Swyddog Iaith a Threftadaeth a'r Swyddog Plant a Phobl Ifanc gydag ysgolion cynradd Sir y Fflint i **gynnal sesiynau ymwybyddiaeth iaith a threftadaeth i flynyddoedd 4 - 6**. Roedd y sesiynau yn gyfle i blant i feddwl am dan **symbolau traddodiad a chyfoes o Gymru**, ac i ddylunio crys-t yn **adlewyrchu agweddau o Gymreictod**. Cymerodd Ysgol Bryn Coch, Ysgol y Fron, Ysgol Mynydd Isa, Ysgol Owen Jones, Ysgol Sychdyn, Ysgol Bryn Gwalia, Ysgol Bryn Garth, Ysgol Trelawnyd, Ysgol Estyn, Ysgol Gwenffrwd, Ysgol Santes Gwenffrewi ac Ysgol Bryngwalia rhan yn y gweithdai, gyda'r swyddogion yn cynnal 25 o sesiynau.

Trwy dymor yr haf cydweithiodd y Swyddog Iaith a Threftadaeth gyda **Cadw** i ddarparu ei **gynllun addysg** i grŵp cymunedol o Sir y Fflint. Daeth griw o blant at ei gilydd i astudio hanes castell y Fflint ac i ddysgu sut i **animeiddio ffilm** yn defnyddio technoleg 'stop motion'. Rhwng mis Ebrill a Mis Gorffennaf bu'r grŵp yn cyfarfod yn wythnosol i weithio ar ei ffilm, gyda'r gwaith gorffenedig yn cael ei arddangos mewn noson sgrinio yn Theatr Twm o'r Nant, Dinbych. Cydweithiodd yr Urdd ar y prosiect.

Cefnogodd y Fenter **Sioe Treuddyn** trwy drefnu **sioe pypedau Cymraeg** a gweithdai creu pypedau trwy'r Gymraeg gyda **Chwmni Cortyn**.
Cyn diwedd 2010 bydd y Fenter wedi cynnal amryw o weithgareddau eraill i blant, yn cynnwys gweithdy **celf amgylcheddol gyda Tim Pugh** i ddisgyblion **Ysgol Rhos Helyg**, gweithdai creu murlun gyda **Cefyn Burgess** i aelodau **Clwb Hwyl Hwyr sy'n drigolion Trelawnyd, Gwaunysgor a Thalacre**, ac rydym yn cydweithio gyda'r **Urdd** i drefnu ymweliad gan un o'r **Awduron ar Daith Academi** i bob ysgol mamaeth o fewn Sir y Fflint, er mwyn annog y plant i ysgrifennu yn greadigol ac i **gystadlu yn eisteddfod yr Urdd.**

Pennod 4: Dysgwyr – Hyder Ieithyddol

Un o brif amcanion y Fenter yw cynorthwyo i gynyddu'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg a chryfhau sefyllfa'r Gymraeg fel iaith gymunedol.

Cefnogodd y Fenter amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys **Nosweithiau i ddathlu'r traddodiad Plygeiniol** yn Yr Wyddgrug a Phentre' Helygain **.** Mae'r Fenter yn parhau i gefnogi gweithgareddau **C³**, Cymdeithas i gymathu Dysgwyr rhugl a Siaradwyr Cymraeg yn ardal Yr Wyddgrug a CD, cymdeithas ar gyfer dysgwyr sylfaenol.
Trefnwyd noson o straeon arswyd gyda'r cyfarwydd Cath Aran ar gyfer clwb C3 ym mis Hydref 2009, a bydd y Fenter yn cynnal noson Calan Gaeaf C3 gyda hi eto yn Nhreuddyn.

Trefnodd y Fenter weithgareddau cymunedol ar gyfer **Ysgrifennu Creadigol gydag Iwan Llwyd a Siân Northey** yn Yr Wyddgrug yn ystod misoedd Ionawr a Chwefror 2010, ynghyd a gweithdai **celf gymunedol** gyda'r **arlunydd Mari Gwent** i greu Murlun yn seiliedig **ar grochenwaith Bwcle** ystod Mis Ionawr a Chwefror 2010 er mwyn i Ddysgwyr gael ymarfer eu Cymraeg. Mae'r Fenter wedi sefydlu **clwb celf i ddysgwyr** sy'n cyfarfod yn fisol yn **Rhydymwyn.** Trefnodd y Fenter cwis i ddysgwyr yn Nhafarn y Dderwen yn Hendre fel rhan o raglen wythnos Iaith ar Daith.
Mae'r Fenter yn cynorthwyo clwb CD trwy arwain **sesiynau ymwybyddiaeth iaith a chwis Cymraeg** yn flynyddol.

Pennod 5: Pobl Ifanc

Mae'r Fenter wedi parhau i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg ymhlith yr ifanc ac yn edrych i greu cyfleodd i bobl ifanc gael defnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol.

Cydweithredodd y Fenter gyda'r **Urdd** a **Mentrau Iaith y Gogledd** unwaith eto i gynnal cystadleuaeth dalent **Talent FfM** ar gyfer pobl ifanc ym Mis Rhagfyr 2009. Daeth nifer o ieuenctid siroedd Wrecsam Fflint a Dinbych i gystadlu o flaen cynulleidfa sylweddol yng **Ngwesty'r Springfield**, **Treffynnon**

Yn ogystal trefnwyd **Noson Gomedi** yng Ngwesty Springfields Treffynnon, ar gyfer pobl ifanc y sir mewn cydweithrediad a'r Urdd gyda gig i ddiweddu'r noson gyda **Six Tonne Dog**, grwp o Sir Y Fflint ym mis Chwefror 2010.

Fel rhan o'r **Prosiect Iaith a Threftadaeth** comisiynwyd cyfres o **weithdai ffilm** i ddisgyblion ysgolion Uwchradd y sir er mwyn rhoi cyfle iddynt gael dehongli drwy'r broses greadigol elfennau o lenyddiaeth Cymru. Cydweithiodd y Fenter yn agos gyda'r **Cyngor Sir** i ddatblygu **Gwobr Ffilm Daniel Owen** fel rhan o ddathliadau **Ŵyl Ffilm Sir y Fflint** 2010 ac i sicrhau cyfranogaeth ehangach o'r ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ail iaith ar gyfer yr Ŵyl. Mewn cydweithrediad a'r **Urdd** llwyddwyd i sicrhau bod y bobl ifanc yn derbyn cymhwyster **OCN** ar ddiwedd y gweithdai, tra hefyd yn hyrwyddo manteision

dwyieithrwydd i'r disgyblion wrth iddynt ystyried eu dewisiadau gyrfaol. Cychwynnodd y prosiect ym Mis Ionawr 2010 a chwblhawyd ym Mis Mai 2010 a darparwyd cyfleoedd hyfforddi i 75 o bobl ifanc yn yr ysgolion uwchradd lleol, megis **Ysgol Maes Garmon**, **Ysgol Sant Richard Gwyn, Ysgol Alun, Ysgol Y Fflint ac Ysgol Treffynnon**. Llwyddodd y Fenter i ddenu nawdd gan **Asiantaeth Ffilm Cymru** ar gyfer ariannu'r elfen hyfforddi OCN a chostau cynnal yr **Ŵyl Ffilm Daniel Owen.**

Un o'n prif ddigwyddiad unwaith eto eleni oedd cynorthwyo Pwyllgor Gŵyl **Y Ffin** i gynnal gŵyl **gerddorol roc a pop Cymreig**, â cherddoriaeth o Gymru yn **Nhreffynnon**. Targedwyd yr ŵyl yn benodol ar gyfer pobl ifanc gan hyrwyddo **diwylliant, iaith a threftadaeth Cymru** i fynychwyr yr ŵyl. Mynychodd dros **600** o bobl y digwyddiad ym mis Gorffennaf er mwyn gweld trawstoriad o artistiaid Gymraeg a Chymreig yn perfformio.

Denodd gig Gŵyl Fwyd yr Wyddgrug nifer fawr o bobl ifanc. Yn ogystal ag Elin Fflur a'r Band, perfformiodd bandiau o Ysgol Maes Garmon ac Ysgol Morgan Llwyd ar y noson. Cynorthwyodd y Fenter y BBC trwy helpu i drefnu rownd sirol Brwydr y Bandiau C2 yn Wrecsam. I annog bandiau i chwarae trwy'r Gymraeg trefnodd y Fenter gweithdai cyfansoddi gydag Ed Holden, a threfnwyd gig Cymraeg ar y cyd gyda Menter Maelor a Dinbych i lwyfannu bandiau Cymraeg ifanc, gyda Masters in France i ddiweddu'r noson.

Pennod 6: Sector Breifat

Cydnabyddai'r Fenter fod gan gwmnïau a busnesau rôl bwysig i'w chwarae er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn ymdreiddio i'n bywydau bob dydd. Mae'r Fenter wedi parhau i gydweithio gydag Uned Sector Breifat, Bwrdd yr Iaith Gymraeg i geisio cyfleodd newydd i weithio gyda chwmnïau lleol a'u perswadio i ddefnyddio'r Gymraeg.

Cynorthwyodd y Fenter Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ei gwaith ymchwil yn datblygu **Cynlluniau Iaith** ar gyfer nifer o fusnesau yn y sir. Byddwn yn parhau i roi arweiniad mewn cydweithrediad a'r Bwrdd i fusnesau lleol sydd yn edrych i weithredu'n ddwyieithog.

Pennod 7: Marchnata a Chyhoeddusrwydd Digwyddiadau

Rydym wedi adeiladu ar ein llwyddiant ar ddatblygu proffil y Fenter yn ystod cyfnod yr adroddiad ac wedi mabwysiadu dulliau marchnata arloesol drwy ddefnyddio technoleg newydd megis **Facebook**, **twitter** a gwasanaeth **negesdestun** er mwyn creu **delwedd gyfoes a deniadol** o weithgareddau a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn y sir. Rydym yn barhaus yn edrych ar ffyrdd o adeiladu ar y berthynas gyda'r wasg Seisnig leol ac wedi llwyddo i gael erthyglau yn y Flintshire Leader a'r Chester Chronicle, y Daily Post a'r Western Mail. Ymddangosodd erthyglau ar Y Ffin, gweithdy Ed Holden, taith cerdded i Gastell Caergwrle, Gweithdai Animeiddio a Gŵyl Ffilm Daniel Owen ymhlith eraill yn y papurau uchod yn ystod y cyfnod a chafwyd sylw ar Radio Cymru a Radio 4.

Rydym wedi parhau i **hwyluso** a **chefnogi** digwyddiadau yn flynyddol sydd yn hyrwyddo **diwylliant cyfoes a thraddodiadol lenyddol, gerddorol a dawns werin** y sir drwy gefnogi **Gŵyl Tegeingl , Gŵyl Y Ffin, Gŵyl Fama, Gŵyl y Cadi Ha, Gŵyl Treuddyn, Gŵyl Caerwys a Gŵyl Daniel Owen.**

Rydym yn parhau i gynhyrchu ein **Newyddlen** electroneg , "**Camau**" er mwyn cadw mewn cysylltiad gyda'n haelodau a'n cefnogwyr a'i hysbysu am weithgareddau, digwyddiadau a gweithdrefnau mewnol y Fenter. Mae 110 o aelodau yn cefnogi amcanion y Fenter erbyn hyn.

Pennod 8: Y Strwythur Rheoli, Staffio ac Aelodaeth

Dyma'r rhestr o **Gyfarwyddwyr** a **Swyddogion** Menter Iaith Sir y Fflint yn ystod cyfnod yr Adroddiad:

Cyfarwyddwyr	Huw Alun Roberts Nia Wyn Jones Pedr Wyn Jones - ymddiswyddo 19eg Ebrill 2010 Harri Bryn Jones Lisa Ohran Gwenno Jones Nesta Davies Carl Renshaw
Cadeirydd	Harri Bryn Jones

Is- Gadeirydd	Huw Alun Roberts
Ysgrifennydd y Cwmni	Nia Wyn Jones
Trysorydd	Lisa Ohran

Rheolwr	Gwawr Cordiner
Swyddog Busnes (rhan amser)	Rhian Davies
Swyddog Busnes (rhan amser)	Ellie Pritchard
Swyddog Iaith a Threftadaeth	Rebecca Davies
Swyddog Plant ac Ieuenctid	Gwilym Jeffs dros dro 1/9/ 2010 – 31/12/2010
Swyddog Plant ac Ieuenctid	Rhian Roberts dros dros 1/1/2010 – 31/7/2010
Swyddog Ieuenctid	Awen Williams – penodi 1/9/2010

Rhestr Aelodau:

Ros Adams, Yr Hôb (Aelod Unigol)
Teresa Allen, Talacre (Cymunedau'n Gyntaf)
Marian Antrobus, Alltami (Mudiad Ysgolion Meithrin)
Jill Blandford, Gwernymynydd (Aelod Unigol)
Nick Blandford, Gwernymynydd (Aelod Unigol)
Helen Brockley, Bagillt (Aelod Unigol)
Eirian Conlon, Yr Wyddgrug (Prifysgol Bangor)
Paul Conlon, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Steve Crosby (Aelod Unigol)
Aled Lloyd Davies, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Beryl Davies, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Bryn Davies, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Meirwen Davies, Caerwys (Aelod Unigol)
Rhian Davies, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Stuart Davies, Rhuddlan (Aelod Unigol)
Sion Huw Davies, Caerwys (Aelod Unigol)
Kieran Duff, Yr Wyddgrug (FLVC)
Helen Dumbleton, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Geraint Brython Edwards, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Non Edwards, Cei Connah (Coleg Glannau Dyfrdwy)
Carys Gwyn Evans, Yr Wyddgrug (Mudiad Ysgolion Meithrin)
Luke Evans, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Pam Evans-Hughes, Wrecsam (Canolfan Cymraeg i Oedolion)
Catrin Gilkes, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Collin Gilligan, Brychdyn (Parc Siopa Brychdyn)
Dafydd Griffiths, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Meri Griffiths, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Dafydd Gruffydd, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Emyr Gwyn, Handbridge (Aelod Unigol)

Elin Gwynedd, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Sally Heaney, Bodfari (Aelod Unigol)
Eryl Hooson, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Elgan Davies Hughes, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Gwyn Hughes, Caerwys (Aelod Unigol)
Keith Redfern Humphreys, Cilcain (Aelod Unigol)
Siwan Hywel, Bangor (Canolfan Cymraeg i Oedolion)
Gary Hughes, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Rhiannon Jenkins, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Bethan Jones, Nercwys (Aelod Unigol)
Caren Prys Jones, Yr Wyddgrug (Cyngor Sir y Fflint)
Dafydd Wynn Jones, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Donna Jones, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Dylan Jones, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Eirwen M. Jones, Nercwys (Aelod Unigol)
Frances Jones, Yr Wyddgrug (Popeth Cymraeg)
Gareth Wyn Jones, Wrecsam (Aelod Unigol)
Gwenno Jones, Rhes-Y-Cae (Aelod Unigol)
Gwion Jones, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Harri Bryn Jones, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Iwan Jones, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Mark Jones, Y Fflint (Ysgol Croes Atti)
Ken Jones, Gwernymynydd (Aelod Unigol)
Neil Wyn Jones, West Kirby (Aelod Unigol)
Nia Wyn Jones, Bwcle (Aelod Unigol)
Osian Jones, Nercwys (Aelod Unigol)
Trefor Jones, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Brioni Kardzis, Brynffordd (Aelod Unigol)
Alaw Lewis, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Dilys Lewis, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Heledd Lewis, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Ian Lewis, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Dafydd Evan Morris, Cei Connah (Aelod Unigol)
Darren Morris, Pentref Cythral (Urdd Gobaith Cymru)
Faicka Nosir, Treffynnon (Aelod Unigol)
Lisa Orhan, Licswm (Aelod Unigol)
Arwel Owen, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Sara Owen, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
David Owen, Gwernymynydd (Aelod Unigol)
Adam Phillips, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Ann Phillips, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
David Porter, Bodfari, (Aelod Unigol)
Carl Renshaw, Bagillt (Aelod Unigol)
Eric Richardson, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Lesley Riordan, Treffynnon (Aelod Unigol)
Ceinwen Roberts, Northop Hall (Aelod Unigol)
Emrys Roberts, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)

Y Cynghorydd Gareth Roberts, Treffynnon (Aelod Unigol)
Huw Alun Roberts, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
John Rosser, Pen y ffordd, (Papur Fama)
Gillian Shakespeare, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Meinir Siencyn, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Tanwen Siencyn, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Kirsty Smallwood, Treffynnon (Aelod Unigol)
Martin Templeman, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Howard Thomas, Nannerch (Aelod Unigol)
Rhian Wyn Thomas, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Wan Toone, Treffynnon (Aelod Unigol)
Vicky Weale, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Bettina Weiss, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Mari Wiliam, (Estyn Llaw)
John Williams, Yr Wyddgrug (Clwyd Theatr Cymru)
Gareth Watson, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Awen Williams, Rhuthun (Aelod Unigol)
Pam MacClean (Ysgol Y Fflint)
Diana Williams (Canolfan Teuluoedd Gronant)
Karen Mccoll, Saltney(Aelod Unigol)
Theresa Ankers, Treuddyn(Aelod Unigol)
Sioned Timms, Sandycroft, (Aelod Unigol)
Steve Marquis, Helygain (Aelod Unigol)
Rosemary Jones (Ysgol Elfed)
Huw Garmon, Caerdydd (Aelod Unigol)
Simon Radforth Treffynnon (Aelod Unigol)
Geraint Llyr Roberts Sychdyn (Aelod Unigol)
Kieran Owen, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Rebecca Davies, Prestatyn ((Aelod Unigol)
Ceri Price(Aelod Unigol)
Gina Hart Bagillt (Trawsnewid Treffynnon)
Pat Mee, Treffynnon (Aelod Unigol)
Mary Salami, Treffynnon (Aelod Unigol)
Awen Blanford, Gwernymynydd (Aelod Unigol)
Steven Jones Treffynnon (Aelod Unigol)
Jane Nicholas, (Aelod Unigol)
Meinir Tomos Jones (Coleg Harlech)
Helen Roberts ,Treuddyn(Aelod Unigol)
Steve Jones , (Aelod Unigol)
David Jones, Penarlâg (Aelod Unigol)
Merlyn Cooper, Gwespyr, (Aelod Unigol)
Sion Edwards (Clwb Hwyl Hwyr)
Rhian Roberts, Treffynnon (Aelod Unigol)

Pennod 9:Gweithredu, Monitro ac Adolygu

Cytunwyd i flaenoriaethu rhai o'r gweithgareddau o'r meysydd datblygu yng Nghynllun Corfforaethol a Rhaglen Weithredu Menter Iaith Sir y Fflint 2008-11 fel ein targedau blynyddol gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mabwysiadwyd y **Cynllun Corfforaethol** yn dilyn ymgynghoriad gyda'r aelodau, ein partneriaid a'n cefnogwyr ym Mis Gorffennaf a Mis Awst 2007. Sicrhawyd grant o £72,043 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2010-11 yn dilyn ein cais i Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn Medi 2009. Cytunwyd ar y **Targedau** canlynol gyda'r Bwrdd:-

Targedau Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2010 - 11
Cydweithio â Partneriaid y Bwrdd sy'n cynnwys, Urdd Gobaith Cymru, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, Canolfan Iaith y Gogledd, Mudiad Ysgolion Meithrin, Merched y Wawr, Papurau Bro, Cymdeithas Eisteddfodau Cymru, Estyn Llaw, Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig, Cerdd Cymunedol Cymru, Gwobr Dug Caeredin trwy gynnal cyfarfodydd er mwyn rhannu gwybodaeth, cynllunio a chydweithio a'r prosiectau fel bo'r galw.
Parhau i arwain / mynychu Fforwm Sirol gan sicrhau bod hyd at 4 cyfarfod yn digwydd erbyn Mawrth 2011.
Cydweithio â'r Bwrdd i hyrwyddo a chefnogi prosiectau ac ymgyrchoedd (lle bo'n berthnasol) i gynnwys, Marchnata Addysg Gymraeg, Twf, Llinell Gyswllt â'r Gymraeg / Gwaith Cartref, Mae Gen ti Ddewis, Cefnogi Arferion Iaith Pobl Ifanc, Iaith Gwaith, Cefnogi'r Gymraeg ac eraill fel bo'r galw. (Dylid nodi unrhyw gydweithio a wneir wrth hyrwyddo'r ymgyrchoedd a'r gwasanaethau hyn).
Mynychu hyfforddiant a gweithdai a gydlynir gan y Bwrdd yn ôl y galw. (Dylid nodi pa weithdai / hyfforddiant a fynychwyd ynghyd â dyddiadau).
Cynnal stondin yn hyrwyddo gwerth dwyieithrwydd mewn 6 o ddigwyddiadau, a chynnal sgwrs er mwyn rhoi gwybodaeth i rieni am gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg (i gynnwys un digwyddiad sy'n arferol ddi-gymraeg). Cynnal sgwrs gyda 50 o rieni erbyn Mehefin, 75 o rieni erbyn Rhagfyr a 50 o rieni erbyn Mawrth 2011.
Mewn partneriaeth ag asiantaethau, cynnal 8 o ddigwyddiadau i rieni i godi eu hymwybyddiaeth o'r gwasanaethau Cymraeg i deuluoedd, y cyfleoedd cymdeithasol sydd ar gael, a'r adnoddau sydd ar gael. Nodir cyfleoedd i gydweithio erbyn Medi 2010.
Cynnal 6 o gyflwyniadau 'magu plant yn ddwyieithog' mewn gweithleoedd gan dargedu o leiaf 6 person ymhob cyflwyniad a wneir
Cynnal cyfarfod gyda Gwasanaethau Gwybodaeth i deuluoedd y Sir er mwyn adnabod

cyfleoedd i gydweithio erbyn Mawrth 2011.
Cefnogi 'r Urdd i gynnal 1 o glybiau cymunedol rheolaidd misol (neu amlach – noder os gwelwch yn dda) o fewn y Sir gyda'r nod o gynnig cyfleoedd i 50 o bobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg. Sicrhau bod y clybiau yn dechrau erbyn 30 Medi 2010.
Cynnal 6 o weithdai cymunedol cyfrwng Cymraeg o fewn y Sir gyda'r nod o gynnig cyfleoedd i 72 o bobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg. 3 o weithdai i gymryd lle erbyn Mehefin 2010 a 3 i gymryd lle erbyn Rhagfyr 2010.
Cynnal 2 o ddigwyddiadau cymdeithasol Cymraeg (gyda chymorth pobl ifanc) o fewn y Sir. 200 o bobl ifanc i fynychu'r digwyddiadau. 1 o ddigwyddiadau i gymryd lle erbyn Mehefin 2010 a 1 i gymryd lle erbyn Rhagfyr 2010.
Cydweithio â threfnwyr Taith 2010 C2 Radio Cymru drwy: Gynnal un gweithgaredd cymunedol fel rhan o'r daith a sicrhau y cyrhaeddir y targedau a osodir gan drefnwyr y daith erbyn 31 Hydref 2010•Gynnig cyfleoedd pellach i fandiau sy'n cael eu sefydlu yn ystod y daith i berfformio erbyn 31 Mawrth 2011
Cydweithio gyda Phartneriaethau Plant a Phobl Ifanc gan sicrhau bod aelod o Fforwm Iaith y Sir yn aelod o'r Bartneriaeth ac yn adrodd yn ôl ymhob cyfarfod o'r Fforwm.
Cydweithio â 3 o glybiau chwaraeon (megis clybiau pêl-droed a rygbi) i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg drwy:• Gynnal arolwg o'r defnydd presennol o'r Gymraeg o fewn y clwb erbyn 30 Mehefin 2010. Adnabod meysydd penodol i'w datblygu o fewn y clwb erbyn 30 Mehefin 2010. Datblygu o leiaf un arfer o'r newydd fydd yn arwain at gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y clwb erbyn Mawrth 2011.
Datblygu perthynas gyda'r Cyngor Sir drwy gynnal cyfarfodydd gyda swyddogion ac / neu aelodau etholedig i drafod cydweithio ar y meysydd canlynol:- Strategaethau Cymunedol - Cynnal o leiaf un cyfarfod gyda swyddog sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu'r strategaeth gymunedol er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnwys yn y broses. Prif ffrydio'r Gymraeg - Cynnal o leiaf 2 gyfarfod gyda Swyddog Iaith y Cyngor er mwyn ystyried datblygu prosiect neu ymgyrchoedd penodol ar y cyd
Parhau i gefnogi / sefydlu 2 o bwyllgorau ardal, gan sicrhau eu bod yn cyfarfod o leiaf 4 gwaith y flwyddyn.2 nifer o bwyllgorau i ddatblygu rhaglen waith penodol erbyn Mawrth 2011
Adnabod cymuned sydd a thros 60% o'r boblogaeth yn medru'r Gymraeg gan ystyried cynnal hyd ac 3 o weithgareddau neu ymgyrchoedd i annog pobl i gymryd cyfrifoldeb dros ddyfodol y Gymraeg yn y gymuned hynny.
Sefydlu Tecniwm Iaith a fydd yn gyrchfan i drigolion y sir gael mynediad i wasanaethau a chefnogaeth yn y Gymraeg
Marchnata a Chyhoeddusrwydd - Mabwysiadu a gweithredu Cynllun Marchnata drwy: Meithrin perthynas well gyda'r wasg Seisnig a'r cyfryngau
Parhau i gynhyrchu newyddlen electroneg
Datblygu a chynnal gwefan a diweddaru'r wybodaeth yn gyson
Cynnal bas data o ddefnyddwyr a chynyddu'r aelodaeth i 130

Sicrhawyd grant gan **Lywodraeth Cynulliad Cymru** ar gyfer gweithredu prosiect **Swyddog Ieuenctid** FfliC (Fflint Ifanc Cymraeg) ar y cyd gyda'r Urdd a Chyngor Sir y Fflint hyd at 31 Mawrth 2011. Sefydlwyd Grŵp Llywio FfliC a fydd yn cyflwyno argymhellion i Bartneriaeth Ieuenctid Cyngor Sir y Fflint ynglŷn â darparu gweithgareddau a chyfleoedd hamdden yn y Gymraeg i bobl ifanc y sir. Cytunwyd ar y targedau canlynol ar gyfer y prosiect.

Targedau Prosiect FfliC 2010 -2011
Sicrhau fod y gwaith yn cael ei gyd gordio gyda holl bartneriaid y sir megis yr Urdd, Menter Iaith, Gwasanaethau Ieuenctid Sir y Fflint, y Ffermwyr Ifanc, Geidiaid, sgowtiaid gan asesu a chreu map o'r ddarpariaeth bresennol ac adnabod bylchau mewn darpariaeth, gan achub ar y cyfle i lenwi'r bwlch gyda gweithgaredd newydd. (o leiaf 2)
Cefnogi darpariaeth bresennol y Gwasanaeth Ieuenctid gan gynyddu cyswllt y bobl ifanc a'r Gymraeg
Darparu gweithgareddau wythnosol tu allan i oriau ysgol cyfrwng Cymraeg (sefydlu a chynnal) Uwch -adran/Aelwyd) x 2 (Ardal yr Wyddgrug a Treuddyn). Rhestru manylion y gweithgareddau a gynhelir gan gynnwys oedran, rhyw a niferoedd. (Rhaglen Maes/bas data cyngor sir a'r Fenter)
Dod o hyd i wirfoddolwyr addas i gynnal yr uchod gan eu hyfforddi a chefnogi eu gwaith yn barhaol. Sicrhau bod pawb sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn derbyn archwiliad CRB.
Cynnal 3 x Gweithdy Cymunedol Cyfrwng Cymraeg
Swyddog Ieuenctid i sicrhau fod Pobl Ifanc yn cael eu hachredu trwy'r canlynol: • Prifysgol Plant • Cymhwyster OCN i oedran • Gwobr John Muir
Cydweithio gyda Swyddogion Awyr Agored yr Urdd i weld beth sy'n bosib ei ddarparu gydag arian treftadaeth y Fenter
Swyddog Ieuenctid i sicrhau bod llais y bobl ifanc yn cael ei glywed trwy: • Sefydlu a chefnogi Fforymau Sirol trwy gydweithio a Phartneriaeth Sir y Fflint • Mynd i weld pobl ifanc mewn gwahanol leoliadau drwy'r sir. (Ysgolion Uwchradd a Chlybiau Ieuenctid) • cynnal cyflwyniadau/sesiynau ymwybyddiaeth sy'n caniatáu amser i'r bobl ifanc gael cyfranogi yn ystod neu ar ôl. • Creu holiadur sydd yn addas i bob un, boed yn Iaith, rhyw, oedran, crefydd er mwyn creu bas data o'r canfyddiadau.
Taith C2/Radio Cymru – Annog bandiau ifanc lleol i gystadlu yn y daith gan sicrhau cefnogaeth iddynt wedyn gan drefnu cyfleoedd iddynt berfformio yn yr ardal mewn gwyliau megis y Ffin
Dangos Llwyddiant Annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon er mwyn rhoi cyfleoedd iddynt ddatblygu sgiliau a dathlu llwyddiant.

Llwyddodd y Fenter yn ychwanegol i weithredu a gweinyddu'r **Prosiect Iaith a Threftadaeth Rhaglen Ddatblygu Wledig** sydd wedi ei gyllido yn rhannol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer y Prosiect Datblygu'r Iaith Gymraeg. Bu'r Fenter yn llwyddiannus yn denu nawdd ychwanegol ar gyfer y prosiect a sicrhawyd £164,000 o grant dros gyfnod o 6ed Orffennaf 2008 hyd at 28 Chwefror 2011. Mae Grŵp Llywio wedi ei sefydlu ac yn goruchwylio'r rhaglen er mwyn sicrhau

fod y Fenter yn cyfarfod yr amcanion a chyflawni targedau'r canlynol ar gyfer y prosiect.

Targed	Targed erbyn diwedd y prosiect	Cyfanswm hyd at ddiwedd mis Mawrth 2010
WOA Mesur.7.1 Nifer o astudiaethau a gomisiynwyd yn cefnogi datblygiad y prosiect	1	0
WOA Mesur.7.2 Nifer o weithgareddau ymgynghorol mewn perthynas â datblygiad y prosiect	10	5
WOA Mesur 7.3 Nifer o weithgareddau dadansoddi gwybodaeth a gyflawnwyd	61	17
WOA Mesur 8.1 Nifer o blant yn cymryd rhan yn y prosiect	90	808
WOA Mesur 8.2 Nifer o ferched yn cymryd rhan yn y prosiect	120	133
WOA Mesur 8.3 Nifer o bobl ifanc yn cymryd rhan yn y prosiect	75	134
WOA Mesur 8.5 Nifer o siaradwyr Cymraeg yn cymryd rhan yn y prosiect	120	617
ECO 323.1.1 Nifer o astudiaethau ac ymchwiliadau a gyflawnwyd mewn perthynas â chynnal, adnewyddu ac uwchraddio'r dreftadaeth wledig.	1	0
ECO 323.1.3 Nifer o brosiectau yn cefnogi cynnal, adnewyddu ac	20	25

uwchraddio'r dreftadaeth wledig a gynorthwywyd a gynghorwyd.		
WOA Mesur 9.2 Nifer o weithredoedd a gyflawnwyd er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r goblygiadau amgylcheddol y prosiect (Lefel 2)	4	6
WR Mesur 323.1.3 Nifer o grwpiau cymunedol wedi eu ffurfio	10	2
ECR.323.1 Poblogaeth yn yr ardal wledig yn cael budd o'r gwasanaethau newydd	73,344	73,344
WR.323.2 Nifer o wasanaethau newydd ar gael i'r gymuned wledig	1	1

Cyfarfu'r Bwrdd Cyfarwyddwyr 5 gwaith rhwng Mis Medi 2009 a Mis Hydref 2010.

Pennod 10 : Adroddiad y Cyfarwyddwyr a Datganiad Ariannol ar 31 Mawrth 2010

Mi fydd adroddiad cyflawn o'r cyfrifon yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr a Datganiad Ariannol am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2009 ar gael cyn y cyfarfod ar y we neu cysylltwch gyda'r swyddfa.